**Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn Ystafell Ystwyth, Penmorfa, Ceredigion ddydd Mawrth, 15 Hydref, 2019.**

**YN BRESENNOL:** Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion/Prif Swyddog Addysg; y Cynghorydd Catrin Miles, Aelod Cabinet; y Cynghorydd Endaf Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu; Carol Davies, Pennaeth Ysgol Dyffryn Cledlyn; Gareth Evans, Dirprwy Bennaeth Ysgol Bro Teifi; Mandy Rowe, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant; Peter Leggett, Pennaeth Ysgol Gynradd Rhydypennau; Philippa Davies, Rhiant Lywodraethwr, Ysgol y Dderi.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd; Cheryl Evans, Swyddog Derbyn i Ysgolion, a Kay Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(14:00 – 14.50)

**1. Ymddiheuriadau**

Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Wyn Thomas, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a Jane Wyn, Pennaeth Ysgol Bro Pedr am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

**2. Gweithdrefn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r pwyllgor a chyflwynodd pawb eu hunain.

**3. Datgelu Buddiannau Personol**

Nid oedd unrhyw fuddiannau personol i'w datgelu.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019.**

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2019 yn gofnod cywir.

**5. Materion yn codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2019**

5.6 – Systemau di-arian mewn ysgolion - nodwyd bod mwy o waith wedi ei wneud. Mae'r cytundebau presennol yn gorffen ar ddyddiadau gwahanol, ond mae cynlluniau ar y gweill i bob ysgol gaffael cytundeb newydd ar yr un adeg. Bydd yr iaith Gymraeg yn rhan o'r broses gaffael. Mae'r gwasanaeth TG yn mynd i archwilio gwasanaeth dwyieithog o fewn y system. Byddai systemau di-arian yn cael eu defnyddio, yn y pendraw, ar gyfer pob trafodiad ariannol mewn ysgolion a bydd yn osgoi risgiau diangen o gadw symiau mawr o arian ar safleoedd ysgolion. Mae trafodaethau ynghylch y mater hwn i'w cynnal gydag ysgolion cynradd.

6 –Y ddogfen 'Gwybodaeth i Rieni' – nodwyd bod y ddogfen hon wedi ei diweddaru a bod y mater hwn yn eitem ar yr agenda hon.

**6. Y Ddogfen 'Gwybodaeth i Rieni'**

Adroddodd y Swyddog Derbyn i Ysgolion fod y ddogfen hon ar fin cael ei chwblhau, ynghyd ag ychwanegu gwybodaeth am benaethiaid newydd yn Aberporth, Comins Coch, Rhos Helyg, T. Llew Jones, Talgarreg, Llanilar (ar ôl hanner tymor), Penparc

a Phlascrug (ar ôl Nadolig) a'r trefniadau newydd yn Ysgol Gynradd Cenarth o fis Ionawr ymlaen.
Nodwyd bod y ddogfen yn pwysleisio'r ffaith bod cwricwlwm newydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2022.

Cytunwyd nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**7. Polisi Derbyn 2020-2021**

Cyflwynodd y Swyddog Derbyn i Ysgolion y drafft diweddaraf. Nodwyd nad oes gwahaniaeth mawr i'r polisi blaenorol, ar wahân i'r ffaith bod tair ysgol gynradd yn llai yn y sir. Mae'r polisi i'w gyflwyno mewn cyfarfodydd Cyrff Llywodraethol ysgolion ar ôl hanner tymor, a hynny er ymgynghoriad. Bydd angen derbyn ymatebion cyn 2 Mawrth 2020.

Mae dogfen strategaeth ynglŷn â chadw disgyblion, 'Addysgu disgyblion y tu allan i'w grŵp oedran cronolegol' i'w chynnwys gyda'r polisi hwn. Gobeithio y bydd y ddogfen yn ddefnyddiol i rieni.

Nodwyd y gall ysgolion wneud cais i gael eu hailfesur mewn perthynas â'r rhif derbyn.

Cytunwyd cymeradwyo'r ddogfen newydd a nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**8. Niferoedd Blwyddyn 7 ar gyfer Ysgolion Uwchradd – Medi 2019.**

Nodwyd bod y niferoedd derbyn ar gyfer ysgolion uwchradd yn unol â'r disgwyl, ym mis Medi 2019.

Mae e-byst a anfonir at rieni/gwarcheidwaid disgyblion Blwyddyn 6 presennol i gael eu diwygio er mwyn tynnu sylw at y ffaith mai ar gyfer yr ysgol agosaf fwyaf addas yn unig y telir am gludiant gan yr AALl. Codwyd pryderon am y sgil-effeithiau posibl i ysgolion sy'n darparu eu bysiau eu hunain i gludo plant o ddalgylchoedd eraill.

Cytunwyd nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**9. Niferoedd Blwyddyn Derbyn mis Medi 2019**

Nodwyd bod y niferoedd a dderbyniwyd i ddosbarthiadau Blwyddyn Derbyn ysgolion cynradd ym mis Medi 2019 wedi cynyddu 20 disgybl ers y cyfarfod diwethaf.

Adroddwyd bod nifer y disgyblion sy'n mynychu unedau yn y sir ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cynyddu. Mae sawl teulu wedi symud i'r ardal, a chanddynt blant ag anghenion sylweddol, felly bydd angen cynyddu capasiti er mwyn diwallu'r angen.

Cytunwyd nodi'r wybodaeth.

**10. Apeliadau Derbyn Canol-Blwyddyn 2018-19**

Nodwyd gwybodaeth ynghylch Apeliadau Derbyn Canol Blwyddyn 2018-2019.

Nodwyd bod saith apêl ar gyfer ysgolion cynradd – enillodd yr AALL bedair apêl a cholli tair.  Yn y sector uwchradd, enillwyd un apêl a chollwyd dwy.  Mae tair apêl arall i'w clywed – un ar gyfer y sector uwchradd a dwy ar gyfer ysgolion cynradd.

Cytunwyd nodi'r wybodaeth hon.

**11. Unrhyw fater arall**

a. Dywedodd y Swyddog Derbyn i Ysgolion fod y ffurflen i wneud cais ar-lein am le mewn ysgol i'w thrafod mewn cyfarfod o'r pedair sir, sy'n rhannu'r ffurflen ar-lein hon, a'r datblygwyr.  Gwnaethpwyd cais gan y Fforwm i'r ffurflen gynnwys gwybodaeth am gefndir llawn hanes addysgol y plentyn (h.y. ysgolion blaenorol).  Gellid cynnwys blwch dewisol yn gofyn am hanes meddygol y plentyn.  Gellid edrych i'r posibilrwydd o ofyn am wybodaeth gan Mudiad Meithrin am anghenion dysgu plant dan 4 oed yn y dyfodol.  Gofynnwyd i bawb astudio'r ddogfen a chynnig sylwadau i'r Swyddog Derbyn i Ysgolion.

b. Rhoddodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion/Prif Swyddog Addysg wybod i'r Fforwm am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Addysgu yn y Cartref: canllaw statudol i awdurdodau lleol a chanllaw i'r sawl sy'n addysgu yn y cartref.  Mae ymateb i'r ymgynghoriad i'w anfon, gan ddatgan nad yw'r ymgynghoriad yn mynd yn ddigon pell a bod angen i'r ddeddf adlewyrchu disgwyliadau'r Awdurdod Lleol i sicrhau y cofrestrir pob plentyn a addysgir yn y cartref.

   Ymddengys fod niferoedd y plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yn uchel yng Ngheredigion. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod yr awdurdod yn gwybod amdanynt, tra nad yw awdurdodau eraill mor ymwybodol pwy o fewn eu sir sy'n cael eu haddysgu yn y cartref.  Nododd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion/Prif Swyddog Addysg fod gwybodaeth leol yn amhrisiadwy a gofynnodd i unrhyw un sy'n ymwybodol o blant a addysgir yn y cartref roi gwybod i Catrin Petche, Rheolwr y Tîm Cynhwysiant, er mwyn gallu trefnu ymweliadau â'r cartref.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf ei rannu cyn gynted â phosibl.